# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)10-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 24 Mawrth 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4$^{ydd}$ Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Val Lloyd i'r cyfarfod (gweler paragraff 3.1).

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)09-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 17 Mawrth 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Materion yn codi**

Yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth, ystyriodd y Pwyllgor Busnes gais gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 i ymestyn y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd a chytunodd y dylid gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r cyfarfod nesaf i drafod yr opsiynau hyn. Roedd Val Lloyd yn bresennol yn y cyfarfod ac ategodd ei chais i ymestyn yr amserlen. Cytunodd Arweinydd y Tŷ i archwilio'r posibilrwydd o gynnig wythnos o estyniad. Gofynnodd y Llywydd a fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor archwilio'r posibilrwydd o gynnal o leiaf un cyfarfod i gyd-fynd â Chyfarfod Llawn ddydd Mercher, yn ystod amser nad yw'n amser y Llywodraeth.

**4. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)10-09(p1)**

4.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn rhoi datganiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen i Ddileu TB.

4.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

4.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 24 a 25 Mawrth 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)10-09(p2)**

4.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)10-09(p3)**

4.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitem ganlynol o fusnes heblaw busnes y Cynulliad:

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat (60 munud) ar 6 Mai.

4.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

4.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**5. Trefniadau busnes**

**Papur ar ailstrwythuro'r System Bwyllgorau - BC(3)10-09(p4)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur ar ailstrwythuro'r system bwyllgorau, a oedd yn bapur rhagarweiniol i gychwyn trafodaethau ar sut y byddai'n bosibl gwneud y system bwyllgorau yn fwy effeithiol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf ar ôl ymgynghori â'u grwpiau.

**Nodyn esboniadol a phapur ar Welliannau i Gynigion y Gwrthbleidiau - BC(3)10-09(p5a a 5b)**

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur a gyflwynai opsiynau ar gyfer ystyried gwelliannau i gynigion y gwrthbleidiau. Ystyriodd y Pwyllgor y papur yn gyntaf ym mis Ebrill 2008 a phenderfynodd beidio â chyflwyno'r newid a argymhellwyd. Yn y cyfarfod heddiw, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno gweithdrefn newydd am gyfnod prawf, a fyddai'n sicrhau y byddai'r gwrthbleidiau'n cael pleidleisio ar eu cynnig gwreiddiol cyn trafod unrhyw welliannau.

**6. Trefniadau Cyflwyno**

**Papur ar doriad y Pasg: Trefniadau Cyflwyno ar gyfer Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth - BC(3)10-09(p6)**

6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y Dyddiau Cyflwyno penodol yn ystod toriad y Pasg:

Byddai'r Swyddfa Gyflwyno ar agor 21 - 24 Ebrill i gyflwyno busnes ar gyfer y pythefnos cyntaf ar ôl toriad y Pasg.

Byddai'r Swyddfa Ddeddfwriaeth ar agor 20-24 Ebrill i gyflwyno gwelliannau i Gyfnod 3 y Mesurau arfaethedig.

YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES